Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Huw Williams
Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw /
Head of Lifestyle Services

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

Canolfan Hamdden Llandysul

Trosglwyddo'r Adeilad

O 31 Mawrth 2017 ymlaen, ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gweithgareddau hamdden ar y safle hwn. Mae Canolfan Ddŵr Llandysul ar fin cymryd y cyfrifoldeb dros gynnal yr adeilad hwn. Bydd y newid hwn yn cymryd amser ond rydym am sicrhau bod y broses drosglwyddo yn un mor hwylus ag y bo modd ac na achosir gormod o anghyfleustra i ddefnyddwyr y ganolfan. Hoffem ddiolch i chi o flaen llaw am eich amynedd drwy'r cyfnod hwn a gobeithiwn y byddwch yn medru parhau i gefnogi'r ganolfan hon yn y dyfodol.

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 3 Ebrill 2017, bydd y pwll ar agor yr oriau arferol ond ni fydd y ganolfan hamdden ond ar gael ar gyfer y dosbarthiadau ffitrwydd a grwpiau. Hyderwn y bydd y ganolfan ar agor at ddefnydd cyffredinol cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ond edrychwch ar yr hysbysfwrdd hwn neu gofynnwch i aelod o staff os ydych am gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir

Huw Williams
Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw

Gellir ateb yn Gymraeg neu Saesneg You may reply in Welsh or English

Prif Weithredwr / Chief Executive : **Bronwen Morgan**
Dirprwy Brif Weithredwr / Deputy Chief Executive : **Eifion Evans**
Cyfarwyddwyr Strategol / Strategic Directors :
Huw Morgan Cymunedau Cynaliadwy / Sustainable Communities
Barry Rees Dysgu a Phartneriaethau / Learning and Partnerships
Sue Darnbrook Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw / Care, Protection and Lifestyle